



Therapi lleferydd ac iaith™  
yn trawsnewid bywydau



## Beth yw anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu?

**M**ae'r term anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (SLCN) yn disgrifio anawsterau ar draws un neu nifer o agweddau cyfathrebu gan gynnwys:

- problemau gyda chynhyrchu synau cyfathrebu yn gywir
- atal dweud
- problemau llais fel crygni a cholli llais
- problemau deall iaith (gwneud synnwyr o'r hyn mae pobl yn ei ddweud)
- problemau defnyddio iaith (geiriau a brawddegau)
- problemau rhyngweithio gyda phobl eraill. Er enghraifft, anawsterau deall rheolau di-eiriau cyfathrebu da neu ddefnyddio iaith mewn gwahanol ffyrdd i gwestiynu, egluro neu ddisgrifio pethau

Mewn rhai achosion mae SLCN yn rhywbeth tymor byr a gellir eu datrys trwy ymyriad effeithiol cynnar. Mae eraill yn fwy parhaol ac yn aros gyda'r person trwy gydol eu plentyndod a'u bywyd fel oedolion.

### Pwy sydd ag SLCN?

Gall anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ddigwydd yn ystod plentyndod fel anawsterau sylfaenol gyda lleferydd, iaith a chyfathrebu neu fod yn eilaidd i gyflyrau datblygu eraill fel awtistiaeth. Mae'n bosib hefyd i hyn ddatblygu mewn oedolion.



### Plant

Mae anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ymhlith yr anabledau mwyaf cyffredin mewn plentyndod:

- ▶ Mae gan **7%** o blant tua pump oed nam penodol o ran lleferydd ac iaith<sup>1</sup>, ac mae gan **1.8%** arall SLCN cysylltiedig â chyflyrau eraill, fel anhawster dysgu, parlys yr ymenydd ac anwylderau sbectrwm awtistiaeth.<sup>2</sup>
- ▶ Mae gan **40%** o blant pump oed gyda gwefus a thafod hollt o bob math anawsterau lleferydd.<sup>3</sup>
- ▶ Mae **chwarter** y plant sydd â pharlys yr ymenydd yn ddeiriaiu.<sup>4,5</sup>

Mae yna gysylltiad hefyd ag anfantais gymdeithasol: gall mwy na hanner y plant mewn ardaloedd amddifadedd cymdeithaol ddechrau'r ysgol gyda chyfyngiadau yn eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu.<sup>6</sup>

Mae cyflyrau datblygu sy'n ymddangos mewn plentyndod, fel atal dweud neu anhwylder amhariad llefaru, yn aml yn achosi SLCN mewn plant a phobl ifanc. Mae rhai cyflyrau'n bresennol o'u genedigaeth a gall unigolion fod angen cefnogaeth trwy gydol eu bywydau. Er enghraifft, mae plant gyda pharlys yr ymenydd yn aml yn ei chael hi'n anodd ynganu rhai synau llefaru, tra bod rhai'n methu cael pobl i'w deall o gwbl.<sup>7</sup>



## Oedolion

- ▶ Mae bron **20%** o'r boblogaeth yn profi anawsterau cyfathrebu rywryd yn ystod eu hoes.<sup>8</sup>
- ▶ Mae **traean** o'r rhai sy'n goroesi strôc yn profi affasia (anhwylder iaith yn deillio o anaf i'r ymenydd).
- ▶ Mae pobl sydd ag affasia yn aml â SLCN.<sup>9</sup>
- ▶ Mae **20%** o bobl gydag anafiadau i'r pen neu'r ymenydd yn cael anawsterau llefaru.<sup>10</sup>

Mae anhwylderau caffaeledig yn aml yn achosi SLCN mewn oedolion. Er enghraifft, gall anaf i'r ymenydd neu afiechydon cynyddol ddigwydd ar unrhyw bwynt yn ystod oes yr unigolyn. Dywed traean o oroeswyr strôc fod y cyflwr wedi effeithio ar eu gallu i ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu a bod tasgau cyffredin fel ateb y ffôn wedi mynd yn amhosibl.<sup>11</sup>

- ▶ I gael mwy o wybodaeth ewch i: [www.rcslt.org](http://www.rcslt.org)

## Pam ei bod yn bwysig mynd i'r afael ag SLCN?

Gall anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu gael effaith andwyol ar ansawdd bywyd i rieni ac oedolion fel ei gilydd. Er enghraifft, gall cyflyrau fel affasia a dysarthria (anhawster siarad yn cael ei achosi gan broblemau rheoli'r cyhyrau a ddefnyddir wrth siarad) achosi anawsterau o ran cyfathrebu anghenion sylfaenol, cynnal sgysiaau a chyfranogi mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Yn achos unigolion gydag anghenion llym a chymhleth, fe allan nhw brofi problemau dybryd o ran deall a defnyddio iaith defnyddio iaith a chael anawsterau difrifol wrth ryngweithio'n gymdeithasol.<sup>12</sup>

Gall anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu hefyd gael effaith uniogrychol ar ddatblygiad plentyn a'u canlyniadau addysgol, iechyd a lles.<sup>13</sup> Os na wneir rhywbeth yn ei gylch, gall hyn effeithio'n andwyol ar blant gydol eu hoes. Er enghraifft, canfuwyd fod gan gymaint â 60% o droseddwyd ifanc ac 88% o ddynion ifanc hirdymor ddi-waith SLCN.<sup>14, 15</sup>

## Gall therapi lleferydd ac iaith helpu

Mae therapyddion lleferydd ac iaith yn asesu a thrin SLCN mewn pobl o bob oed a'u helpu i gyfathrebu hyd eithaf eu gallu. Gan ddefnyddio sgiliau arbenigo, mae therapyddion lleferydd ac iaith yn gweithio'n uniongyrchol gyda chleientiaid, gofawyr a gweithwyr proffesiynol eraill i ddatblygu strategaethau personoledig i gefnogi pobol gydag SLCN. Maen nhw hefyd yn darparu hyfforddiant a strategaethau i'r gweithlu ehangach, fel athrawon a chynorthwyyr gofal, fel a gallan nhw adnabod arwyddion SLCN, gwella amgylchedd cyfathrebu pobl gydag SLCN, a darparu cefnogaeth effeithiol.

## CYFEIRNODAU AC ADNODDAU

1 Tomblin JB, et al (1997). 'Prevalence of Specific Language Impairment in Kindergarten Children', *Journal of Speech, Language and Hearing Research*, 40, tt. 1245-60. <http://jslhr.asha.org/cgi/content/abstract/40/6/1245>

2 Enderby P, et al (2013). *Beyond the Anecdote Examining the need for, and provision of, AAC in the United Kingdom*. Communication Matters. <http://www.communicationmatters.org.uk/beyond-the-anecdote>

3 Briton L, et al (2014). A Cross-Sectional Cohort Study of Speech in Five Year-Olds With Cleft Palate 6 Lip to Support Development of National Audit Standards, *Cleft Palate-Craniofacial Journal*, Gorffennaf 2014, Vol. 51 No. 4.

4 Nordberg A, et al (2013). *Speech problems affect more than one in two children with cerebral palsy: Swedish population-based study: Acta Paediatr*. 2013 Chwef;102(2):161-6. doi: 10.1111/apa.12076. Epub 2012 Tach 2

5 Sefydliad Parlys yr Ymenydd (2009). Australian Cerebral Palsy Register, Adroddiad 2009, Birth Years 1993-2003, Sydney: Sefydliad Parlys yr Ymenydd.

6 Locke A, Ginsborg J, Peers I (2002). Development and disadvantage: Implications for the early years and beyond. *International Journal of Language and Communication Disorders*, 37(1), tt. 3-15.

7 Biwro Cenedlaethol y Plant (2012). *Early support for children and young*

*people and families: information about cerebral palsy.*

8 Scottish Executive Social Research (2007). *Communication support needs a review of the literature*. <http://tinyurl.com/qzqzkpp>

9 Yr Adran Iechyd. *National Stroke Strategy*. 2007

10 Enderby, op. cit.

11 Coleg Brenhinol Therapyddion Lleferydd ac Iaith (2009). *Resource Manual for commissioning and planning services for SLCN: Aphasia*.

12 Coleg Brenhinol Therapyddion Lleferydd ac Iaith (2009). *RCSLT Resource Manual for Commissioning and Planning Services for SLCN: Autistic Spectrum Disorders*.

13 Yr Adran Iechyd (2013). *Annual Report of The Chief Medical Officer 2012, Our Children Deserve Better: Prevention Pays*. <http://tinyurl.com/ljnxbf>

14 Bryan K, Freer J, Furlong C. Language and communication difficulties in juvenile offenders. *International Journal of Language and Communication Difficulties*, 2007; 42, 505-520.

15 Elliott N. (2009). An Investigation into the Communication Skills of Long-Term Unemployed Young Men, Prifysgol Morgannwg. <http://ethos.bl.uk/OrderDetails.do?uin=uk.bl.ethos.553779>